SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU
A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

OFFICE OF THE POLICE & CRIME
COMMISSIONER NORTH WALES

www.northwales-pcc.gov.uk

Glan y Don,
Bae Colwyn / Colwyn Bay
LL29 8AW

Yvette Cooper
Home Secretary
Home Office
2 Marsham Street
London
SW1P 4DF

Ein Cyf / Our Ref: AD/HW/2384

09 Medi/September 2024

Annwyl Ysgrifennydd Cartref,

**Cyflwr Plismona 2023**

Yn unol â'r statud, ysgrifennaf atoch ynghylch Adroddiad Cyflwr Plismona 2023 Arolygaeth Heddluoedd Ei Fawrhydi.

Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar ymddiriedaeth y cyhoedd, hyder a chadw cymunedau'n ddiogel. Cofnodwyd ymddiriedaeth y cyhoedd yn Heddlu Gogledd Cymru fel un o'r uchaf yng Nghymru a Lloegr gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS). Yn nata mis Mawrth 2024, Heddlu Gogledd Cymru gafodd y ganran uchaf ar gyfer trin y bobl yn deg ac ail uchaf am drin pobl hefo parch allan o bob un o'r 42 llu yng Nghymru a Lloegr. Mae canlyniad yr arolwg cyhoeddus hwn yn dangos ymroddiad Heddlu Gogledd Cymru wrth gynyddu hyder ac ymddiriedaeth y cyhoedd yn yr heddlu yn ein hardal ni.

Mae pedwar argymhelliad yn yr adroddiad. Mae'r cyntaf yn gofyn i'r Llywodraeth ddileu targed niferoedd swyddogion sefydlog yr heddlu o blaid fframwaith cyflawniad cytbwys. Rwyf yn cefnogi'r argymhelliad gan y bydd yn rhoi'r hyblygrwydd i Brif Gwnstabliaid gyflogi unigolion i rolau arbenigol yn dibynnu ar eu sgiliau yn

Dear Home Secretary,

**State of Policing 2023**

As required by statute I am writing to you regarding His Majesty's Inspectorate of constabulary's State of Policing 2023 Report.

The report focusses on public trust, confidence and keeping communities safe. The public trust in North Wales Police has been recorded as one of the highest in England and Wales by the Office of National Statistics (ONS). In the March 2024 data set, North Wales Police received the highest percentage for treating the people fairly and second highest for treating people with respect out of all 42 forces in England and Wales. The result of this public survey demonstrates the dedication of North Wales Police in increasing public confidence and trust in the police within our area.

There are four recommendations within the report. The first requests that the Government abolishes the fixed police officer numbers target in favour for a balanced performance framework. I support the recommendation as it will provide Chief Constables with the flexibility to employ individuals to specialist roles

01492 805486
OPCC@northwales.police.uk
www.northwales-pcc.gov.uk

O 25 Mai 2018 ymlaen mae'r rheoliadau sy'n berthnasol i brosesu gwybodaeth bersonol wedi newid. Gelwir y rhain yn Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (RhDDC). Darllenwch ein Polisi Preifatrwydd sy'n cynnwys gwybodaeth ar sut ydym yn prosesu'ch gwybodaeth bersonol ac "Eich Hawliau" o dan RhDDC.

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg, a byddwn yn ateb gohebiaeth yn Gymraeg pe dymunir. Ni fydd gohebu yn Gymraeg gyda'r swyddfa yma yn arwain at oedi.

As from 25 May 2018 the regulations relating to processing personal information has changed. These are called General Data Protection Regulations (GDPR). Please read our Privacy Policy which contains information on how we process your personal information and "Your Rights" under GDPR.

We welcome receiving correspondence in Welsh, and will respond to correspondence in Welsh if desired. Corresponding in Welsh with this office will not lead to delay.

www.northwales-pcc.gov.uk

Glan y Don,
Bae Colwyn / Colwyn Bay
LL29 8AW

hytrach na'u bod yn swyddogion neu'n staff yr heddlu.

Mae'r Arolygiaeth wedi awgrymu bod heddluoedd yn cael setliad ariannu aml-flwyddyn sy'n cwmpasu o leiaf tair blynedd ariannol. Rwyf yn cytuno y byddai cyllid aml-flwyddyn yn rhoi mwy o sefydlogrwydd i'r Heddlu na'r system bresennol. Byddai'n caniatáu buddsoddiadau i mewn i TG, fflyd a datblygu'r stad blismona. Mae'r adroddiad yn sôn y byddai cyllid aml-flwyddyn yn destun goruchwyliaeth a chraffu rheolaidd er mwyn sicrhau bod y cyllid yn rhoi gwerth am arian i'r trethdalwr. Fel cynrychiolydd y cyhoedd, mae gen i oruchwyliaeth lawn o gyllid cyfredol yr heddluoedd. Mae gennyf graffu ar waith er mwyn sicrhau gwerth am arian i bobl Gogledd Cymru. Gellir cynnwys ymgorffori cyllid aml-flwyddyn yn fy nghynllun craffu presennol.

Mae'r trydydd cais am roi grymoedd ychwanegol i'r Arolygiaeth sy'n ymgorffori pum elfen. Mae'r Arolygiaeth wedi gofyn i Gomisiynwyr Heddlu a Throsedd roi diweddariad blynyddol ar yr argymhellion sy'n weddill. Nid oes gennyf unrhyw wrthwynebiad i roi diweddariad blynyddol. Fodd bynnag, pe bai hyn yn cael ei weithredu, byddwn yn gofyn i mi ymwneud mwy hefo'r Arolygiaeth. Byddai hyn yn cynnwys cael gwybod cyn, yn ystod ac ar ôl pob arolwg.

Rwy'n cefnogi cais yr Arolygiaeth i fynnu bod sefydliadau ychwanegol yn ymateb i argymhellion. Fodd bynnag, dylid ystyried y

depending on their skillset as opposed to whether they are officers or police staff.

The Inspectorate have suggested that police forces are provided with a multi-year funding settlement that covers at least three financial years. I agree that multi-year funding would provide the Force with more stability than the current system, and would allow for investments into IT, fleet, and the development of the policing estate. The report mentions that multi-year funding would be subject to regular oversight and scrutiny to make sure that the funding provides value for money for the taxpayer. As the public representative, I have full oversight of the forces current finances and I have scrutiny in place to ensure value for money to the people of North Wales. The incorporation of multi-year funding could be included within my current scrutiny plan.

The third recommendation request for additional powers to be given to the Inspectorate which incorporates five elements. The Inspectorate have requested for PCCs to provide an annual update on outstanding recommendations. I have no objection to providing an annual update, however, should this be implemented I would request that I have more involvement with the Inspectorate. This would include being informed before, during and following each inspection.

I support the Inspectorate's request to require additional organisations to respond to recommendations. The differences between

01492 805486
OPCC@northwales.police.uk
www.northwales-pcc.gov.uk

O 25 Mai 2018 ymlaen mae'r rheoliadau sy'n berthnasol i brosesu gwybodaeth bersonol wedi newid. Gelwir y rhain yn Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (RhDDC). Darllenwch ein Polisi Preifatrwydd sy'n cynnwys gwybodaeth ar sut ydym yn prosesu'ch gwybodaeth bersonol ac "Eich Hawliau" o dan RhDDC.

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg, a byddwn yn ateb gohebiaeth yn Gymraeg pe dymunir. Ni fydd gohebu yn Gymraeg gyda'r swyddfa yma yn arwain at oedi.

As from 25 May 2018 the regulations relating to processing personal information has changed. These are called General Data Protection Regulations (GDPR). Please read our Privacy Policy which contains information on how we process your personal information and "Your Rights" under GDPR.

We welcome receiving correspondence in Welsh, and will respond to correspondence in Welsh if desired. Corresponding in Welsh with this office will not lead to delay.

gwahaniaethau rhwng sefydliadau yng Nghymru a Lloegr. Mae sefydliadau cyhoeddus fel awdurdodau lleol, gwasanaethau tân ac iechyd i gyd wedi'u datganoli yng Nghymru ac felly yn cael eu llywodraethu gan Lywodraeth Cymru. Nid oes gan Lywodraeth y DU awdurdod gorfodi argymhellion sy'n cael eu rhoi i sefydliadau datganoledig. Byddai angen ystyried cytundeb hefo Llywodraeth Cymru cyn i'r argymhelliad hwn gael ei gytuno.

Mae cynnwys swyddogaethau sy'n cael eu comisiynu gan y CHTh sy'n cael eu hymgorffori o fewn grymoedd arolygiaeth yn codi rhai pryderon. Mae unrhyw wasanaethau a gomisiynir gennyf i'n cael eu gwerthuso a'u craffu er mwyn gwarantu eu bod yn darparu gwasanaeth rhagorol a gwerth am arian. Rwyf yn atebol i'r etholwyr. Pe bai'r newid hwn yn dod i rym byddwn hefyd yn atebol i'r Arolygiaeth. Mae hyn yn tanseilio annibyniaeth fy rôl fel CHTh.

Rwyf yn cytuno y dylai'r Arolygiaeth gael y grym i arwain heddluoedd mewn amgylchiadau penodol a chyfyngedig, lle mae methiannau yn peri risg sylweddol i ddiogelwch y cyhoedd. Byddai'r swyddogaeth hon yn caniatáu ymdrin hefo methiannau'n brydlon ac yn lleihau'r risg i'r cyhoedd.

Rwyf yn llwyr gefnogi ailgyflwyno rôl yr Arolygiaeth o fewn proses ddethol prif gwnstabliaid. Yng Ngogledd Cymru rydym wedi cyflwyno proses gadarn ac annibynnol wrth recriwtio prif gwnstabl, a byddwn yn croesawu

organisations in England and Wales should, however, be considered. Public organisations such as local authorities, fire services and health are all devolved in Wales and are therefore governed by the Welsh Government. The UK Government do not have the authority to enforce recommendations given to devolved organisations. An agreement with Welsh Government would need to be considered prior to the agreement of this recommendation.

The inclusion of functions which are commissioned by the PCC being incorporated within the inspectorate's powers raises some concerns. Any services that I commission are evaluated and scrutinised to guarantee that they are providing an excellent service and value for money. I am held accountable by the electorate, should this change come into place I would also be accountable to the Inspectorate. This undermines the independence of my role as PCC.

I agree that the Inspectorate should be given the power to direct police forces in certain, limited, circumstances where failings pose a significant risk to public safety. This function would allow for failings to be dealt with promptly and reduce the risk to the public.

I am fully supportive of the reintroduction of the Inspectorate role within selection process of chief constables. In North Wales we have introduced a robust and independent process in recruiting a chief constable, and I would



O 25 Mai 2018 ymlaen mae'r rheoliadau sy'n berthnasol i brosesu gwybodaeth bersonol wedi newid. Gelwir y rhain yn Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (RhDDC). Darllenwch ein Polisi Preifatrwydd sy'n cynnwys gwybodaeth ar sut ydym yn prosesu'ch gwybodaeth bersonol ac "Eich Hawliau" o dan RhDDC.

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg, a byddwn yn ateb gohebiaeth yn Gymraeg pe dymunir. Ni fydd gohebu yn Gymraeg gyda'r swyddfa yma yn arwain at oedi.

As from 25 May 2018 the regulations relating to processing personal information has changed. These are called General Data Protection Regulations (GDPR). Please read our Privacy Policy which contains information on how we process your personal information and "Your Rights" under GDPR.

We welcome receiving correspondence in Welsh, and will respond to correspondence in Welsh if desired. Corresponding in Welsh with this office will not lead to delay.

SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU
A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

OFFICE OF THE POLICE & CRIME
COMMISSIONER NORTH WALES

www.northwales-pcc.gov.uk

Glan y Don,
Bae Colwyn / Colwyn Bay
LL29 8AW

unrhyw annibyniaeth ychwanegol i'w hymgorfforri o fewn y broses hon.

welcome any additional independence to be incorporated within this process.

Ar y cyfan, rwyf yn gefnogol i'r awgrymiadau a wnaed gan yr Arolygiaeth yn eu hadroddiad Sefyllfa Plismona 2023. Fodd bynnag, rwyf yn gobeithio y bydd fy mhryderon yn ymwneud â rôl y Comisiynydd yn cael eu hystyried.

Overall, I am supportive of the suggestions made by the Inspectorate within their State of Policing 2023 report however, I hope that my concerns relating to the role of the PCC are considered.

Yn gywir

Yours sincerely



Andy Dunbobbin
Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru /North Wales Police and Crime Commissioner

01492 805486

OPCC@northwales.police.uk

www.northwales-pcc.gov.uk

O 25 Mai 2018 ymlaen mae'r rheoliadau sy'n berthnasol i brosesu gwybodaeth bersonol wedi newid. Gelwir y rhain yn Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (RhDDC). Darllenwch ein Polisi Preifatrwydd sy'n cynnwys gwybodaeth ar sut ydym yn prosesu'ch gwybodaeth bersonol ac "Eich Hawliau" o dan RhDDC.

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg, a byddwn yn ateb gohebiaeth yn Gymraeg pe dymunir. Ni fydd gohebu yn Gymraeg gyda'r swyddfa yma yn arwain at oedi.

As from 25 May 2018 the regulations relating to processing personal information has changed. These are called General Data Protection Regulations (GDPR). Please read our Privacy Policy which contains information on how we process your personal information and "Your Rights" under GDPR.

We welcome receiving correspondence in Welsh, and will respond to correspondence in Welsh if desired. Corresponding in Welsh with this office will not lead to delay.